Headway
the brain injury association

Mae gwasanaethau a goroeswyr anaf i'r ymennydd yn haeddu gwell

Ein maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026



Cyflwyniad

Gall anaf i'r ymennydd herio pob agwedd ar eich bywyd – cerdded, siarad, meddwl a theimlo – a gall y colledion fod yn ddifrifol ac yn barhaol. Gall olygu colli'r bywyd roeddech chi'n ei fyw a'r person roeddech chi'n arfer bod. Rydym i gyd yn meddwl 'fydd e' byth yn digwydd i fi', ond gall anaf i'r ymennydd ddigwydd i unrhyw un, unrhyw bryd. Pan fydd yn digwydd, mae Headway yma i helpu.

Bob 40 munud, mae rhywun yn cael ei dderbyn i'r ysbyty gydag anaf i'r ymennydd yng Nghymru. Mae hynny'n 36 o bobl bob dydd. Yn 2023/24 yn unig, cafodd 13,221 o bobl eu derbyn i'r ysbyty. P'un a yw'n deillio o drawma i'r pen, strôc, neu reswm arall, gall anaf i'r ymennydd newid y ffordd y mae person yn meddwl, yn teimlo, ac yn ymddwyn yn fawr. Ond eto mae mynediad at wasanaethau adsefydlu a chymorth arbenigol, yn y cyfnod acíwt ac yn enwedig mewn cymunedau lleol, yn anghyson, yn annigonol ac wedi'i danariannu, gan adael goroeswyr anaf i'r ymennydd, gofalwyr a theuluoedd heb yr help sydd ei angen arnynt i ailadeiladu eu bywydau ac adennill eu hannibyniaeth.

Gyda'i gilydd, mae 14 o ganghennau a arweinir gan wirfoddolwyr ac un elusen Headway leol yn darparu cymorth i oroeswyr anaf i'r ymennydd ledled Cymru, gyda chefnogaeth Headway UK. Mae ein canghennau a arweinir gan wirfoddolwyr yn darparu gweithgareddau hanfodol a gwasanaethau adsefydlu cymdeithasol i oroeswyr. Hefyd, mae elusen Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru yn cefnogi 500 – 600 o bobl y mae anaf caffaeledig i'r ymennydd wedi effeithio arnynt bob blwyddyn trwy ei chanolfan annibyniaeth a lles, gweithgareddau allgymorth, cymorth i deuluoedd a gofalwyr, cwnsela a mwy.

Mae goroeswyr anaf i'r ymennydd ledled Cymru yn wynebu rhwystrau parhaus i gael gwasanaethau adsefydlu amserol ac arbenigol, gan gynnwys cymorth cymunedol, darpariaeth iechyd meddwl, a chymorth i'r teuluoedd a'r gofalwyr o'u cwmpas. Mae data anghyson ac ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o anafiadau i'r ymennydd yn gwneud **yr** heriau hyn yn anoddach fyth.

Mae'n hen bryd gweithredu – rhaid i'r Senedd a Llywodraeth Cymru gymryd camau pendant i flaenoriaethu goroeswyr anaf i'r ymennydd a'r gwasanaethau hanfodol y maent yn dibynnu arnynt.

1. Trwsio gwasanaethau adsefydlu a sicrhau bod mynediad teg atynt

Dylai pob person y mae anaf caffaeledig i'r ymennydd wedi effeithio arno yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau niwroadsefydlu arbenigol effeithiol ac amserol, ailalluogi cymunedol a chymorth iechyd meddwl. Ond, yn ymarferol, mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n fawr oherwydd diffyg cyllid cynaliadwy cronig, sy'n golygu bod adferiad goroeswr, yn rhy aml, yn dibynnu ar ble mae'n byw yn hytrach nag ar ei anghenion. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â'r loteri'au cod post hyn.

Loteri'au cod post ledled Cymru:

Does dim un uned niwroadsefydlu arbenigol yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru, ac mae cynnig a gynlluniwyd ers tro wedi'i ohirio. Mae'n rhaid i lawer o gleifion deithio pellteroedd hir, yn aml i Loegr, i gael cymorth, sy'n arwain at gostau ariannol a chostau amser sylweddol. Mae'r problemau hyn yn waeth byth i'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf. Ac er bod cymorth cymunedol yn bodoli'n lleol mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys Gwasanaeth Anaf i'r Ymennydd Gogledd Cymru, mae angen buddsoddiad ychwanegol ar y gwasanaethau hyn.

Yn ne Cymru, mae mynediad at adsefydlu cymunedol yn parhau i fod yn anghyson, ac mae angen mynd i'r afael â bylchau amlwg yn ne-orllewin Cymru.

Mae canghennau Headway a arweinir gan wirfoddolwyr yn darparu gwasanaethau pwysig gan gynnwys sesiynau galw heibio, ailintegreiddio cymdeithasol a chymorth i deuluoedd. Er bod Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru yn darparu gwasanaeth adsefydlu lleol hanfodol, mae'r elusen yn wynebu pwysau oherwydd cyllid anghyson a materion asesu awdurdodau lleol.

Mae darpariaeth iechyd meddwl anghyson yn gwneud yr heriau hyn yn anoddach hefyd. Gall anaf i'r ymennydd achosi iechyd meddwl gwael ac ynysu yn uniongyrchol, ond mae 62% o bobl â chyflyrau niwrolegol yng Nghymru yn dweud nad oes unrhyw un wedi holi am eu lles meddyliol yn ystod y tair blynedd diwethaf[1]. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i fuddsoddi'n lleol, a hynny ar frys.

Er mwyn cefnogi goroeswyr anaf i'r ymennydd, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

1. Cyflwyno cynllun cyflawni anaf i'r ymennydd i sicrhau bod yna gymorth adsefydlu arbenigol acíwt, ôl-acíwt a chymunedol cyson, amserol ac o ansawdd uchel ledled Cymru, gan gynnwys adsefydlu galwedigaethol hanfodol.
2. Ailgychwyn ac ariannu'n llawn y gwaith o ddatblygu Uned Niwroadsefydlu arbenigol yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru.
3. Ehangu a buddsoddi mewn gwasanaethau adsefydlu cymunedol, gan gynnwys buddsoddi ar frys mewn ardaloedd lle nad oes cymorth ar gael, fel ardaloedd cefn gwlad Cymru.
4. Gwarantu mynediad cyson at gymorth iechyd meddwl, gan gynnwys trwy recriwtio mwy o niwroseicolegwyr.

2. Gwella'r gofal a'r cymorth a roddir er mwyn gwella lles ac annibyniaeth

Yn aml, mae gan bobl yng Nghymru sy'n byw gydag anaf i'r ymennydd anghenion cymhleth sy'n newid yn gyflym, ond mae gofal cymdeithasol yn araf, yn ddryslyd ac yn anodd ei gyrchu. Mae arosiadau hir a chymorth annigonol yn rhoi pwysau enfawr ar deuluoedd a gofalwyr di-dâl. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod goroeswyr yn cael gwell gofal a chymorth i fyw'n dda ac yn annibynnol.

Cymorth cyfyngedig i oroeswyr a gofalwyr:

Mae llawer o bobl yng Nghymru sydd ag anaf i'r ymennydd yn byw'n annibynnol am flynyddoedd, ond mae eraill yn datblygu anghenion cymhleth a all newid yn gyflym. Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn aml yn araf, yn anodd ei lywio ac yn anghyson, gan olygu bod goroeswyr yn wynebu risg y gallai eu cyflwr ddirywio neu y gallent gael eu derbyn i'r ysbyty (achosion y gellir eu hosgoi).

Ochr yn ochr â gofal â thâl, mae teuluoedd yn darparu cymorth dyddiol hanfodol ond, yn aml, nid oes gwybodaeth glir a chymorth ymarferol yn cael eu rhoi iddynt. Mae hyn, ynghyd â theithiau hir i wasanaethau arbenigol, yn rhoi straen ar berthnasoedd ac iechyd gofalwyr. Ers 2011, mae Cronfa Argyfwng Headway ledled y DU wedi rhoi dros £40,000 i deuluoedd yng Nghymru sy'n wynebu heriau sydyn ar ôl anafiadau, ond mae angen mwy o gymorth.

Mae tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru[2], gan gynnwys llawer sy'n darparu cymorth i oroeswyr anaf i'r ymennydd, yn ysgwyddo cyfrifoldebau enfawr a chostau sylweddol. Mae cymorth cryfach i ofalwyr yn hanfodol i amddiffyn lles teuluoedd a goroeswyr.

Er mwyn cefnogi goroeswyr anaf i'r ymennydd, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

1. Ymrwymo i gyllid gofal cymdeithasol cynyddol, cynaliadwy yn yr hirdymor, ochr yn ochr â hyfforddiant arbenigol gorfodol i staff, i sicrhau cymorth priodol fel bod goroeswyr anaf i'r ymennydd yn byw bywydau gwerth chweil.
2. Cyflwyno proses gyson a thryloyw ar gyfer asesiadau atgyfeirio ac ariannol i gael mynediad at adsefydlu cymunedol ar draws awdurdodau lleol.
3. Sefydlu cynllun grant hygyrch, yn seiliedig ar Gronfa Argyfwng Headway, i gynorthwyo teuluoedd yn syth ar ôl anaf.
4. Gwella mynediad at gwnsela, cymorth ariannol a gwasanaethau ychwanegol i ofalwyr teuluoedd yr effeithir arnynt.

3. Cryfhau dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chasglu data am anafiadau i'r ymennydd

Nid yw'r data cyson sydd ei angen i ddeall gwir raddfa anafiadau caffaeledig i'r ymennydd ar gael yng Nghymru. Hyd nes y bydd hyn yn gwella, ni all gwasanaethau gynllunio neu ddarparu cymorth cydgysylltiedig yn effeithiol. Mae'r bwlch hwn mewn data yn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth ehangach, gan danlinellu'r angen i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anafiadau i'r ymennydd a'u hatal ar frys.

Diffyg dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a data:

Mae angen data llawer gwell ar anafiadau caffaeledig i'r ymennydd ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae bylchau mewn gwybodaeth yn cynnwys pwy sy'n mynd at feddygon teulu, beth sy'n digwydd ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, a faint o oroeswyr sy'n manteisio ar wasanaethau adsefydlu, gofal cymdeithasol neu fudd-daliadau.

Mae'r bwlch hwn yn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o anafiadau i'r ymennydd yng Nghymru, lle mae'r effeithiau yn cael eu hanwybyddu'n aml. Yn benodol, gallai effeithiau cudd ac amrywiol anafiadau i'r ymennydd gael eu cydnabod yn well ar draws gwahanol leoliadau, gan gynnwys addysg, chwaraeon, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwella ymwybyddiaeth yn hanfodol i atal anafiadau, nodi anghenion yn gynharach a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ym mhob agwedd ar eu bywyd.

Rhaid i ddata ac ymwybyddiaeth ysgogi camau gweithredu hefyd, gan gynnwys adnabod anafiadau i'r ymennydd yn fwy cyson a gwella cydgysylltu rhwng gwasanaethau cyhoeddus. Byddai mwy o bwyslais ar atal yn lleihau anafiadau i'r ymennydd y gellir eu hosgoi a'r effaith hirdymor ar unigolion, teuluoedd a gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn cefnogi goroeswyr anaf i'r ymennydd, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

1. Cyflwyno un fframwaith ledled Cymru i gofnodi anafiadau i'r ymennydd yn gyson ledled Cymru.
2. Cynnal gwaith mapio cenedlaethol o wasanaethau anafiadau i'r ymennydd y GIG a'r rhai nad ydynt yn rhan o'r GIG, gan gynnwys cymorth cymunedol, i nodi bylchau ym maes adsefydlu.
3. Lansio ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i addysgu pobl am effeithiau cudd ac amrywiol anafiadau i'r ymennydd.
4. Sicrhau bod staff gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen sy'n rhyngweithio â goroeswyr anafiadau caffaeledig i'r ymennydd yn derbyn hyfforddiant arbenigol gorfodol ar ddeall anafiadau i'r ymennydd, ynghyd â hyfforddiant hygyrch ar gyfer sefydliadau anllywodraethol.

Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru

Mae Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru, elusen ymreolaethol sy'n gysylltiedig â Headway – y gymdeithas anafiadau i'r ymennydd, yn darparu gwasanaethau adsefydlu hanfodol lleol i oroeswyr anaf i'r ymennydd ond mae'n wynebu pwysau cynyddol oherwydd straen systemig ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae goroeswyr anaf i'r ymennydd lleol yn gorfod aros yn hir am asesiadau awdurdod lleol, tra bod asesiadau ariannol dryslyd ac anghyson yn gadael defnyddwyr gwasanaeth yn ansicr am gostau ac, mewn rhai achosion, yn wynebu taliadau anfforddiadwy. Mae risg hefyd y bydd y system asesiadau bresennol yn eithrio unigolion sydd ag anghenion gwybyddol neu emosiynol mwy cynnil.

Mae'r cyllid y mae'r elusen yn ei gael yn parhau i fod yn anghyson, gyda bwlch nodedig gan fwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg ac ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid sy'n gyfyngedig o ran amser i gychwyn gan Lywodraeth Cymru.

Ar draws de-ddwyrain Cymru, mae mynediad at welyau adsefydlu pwrpasol yn fwyfwy cyfyngedig, gyda llawer o bobl yn cael eu rhyddhau i ysbytai lleol lle nad oes gwasanaethau arbenigol. Mae hyn yn dangos bod angen paru cleifion â gofal priodol yn well.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi gwasanaethau adsefydlu cymunedol fel y rhai a ddarperir gan Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Casgliad

Gall anaf i’r ymennydd ddigwydd mewn amrantiad, ond mae’n cymryd blynyddoedd i wella ac ailadeiladu bywyd.

Yn ystod y Senedd nesaf, bydd tua 53,000 o bobl yn cael eu derbyn i’r ysbyty gydag anaf caffaeledig i’r ymennydd. Rhaid i’r Senedd a Llywodraeth newydd Cymru wneud mwy i sicrhau nad oes unrhyw oroeswr yn wynebu’r daith honno ar ei ben ei hun. Trwy fuddsoddi mewn adsefydlu, cefnogi teuluoedd a gofalwyr, a gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, gall y llywodraeth nesaf drawsnewid canlyniadau i filoedd o bobl bob blwyddyn. Mae Headway a’n rhwydwaith lleol yn barod i helpu – ond allwn ni ddim gwneud hynny heb weithredu cenedlaethol.

Gyda’n gilydd, gallwn adeiladu Cymru lle mae pob goroeswr anaf i’r ymennydd yn cael y ddealltwriaeth, y cymorth a’r cyfleoedd mae’n eu haeddu.

Cyfeiriadau:

[1] Fy Arolwg Niwro Adroddiad Cymru (2022) Cynghrair Niwrolegol Cymru: walesneurologicalalliance.org.uk/2021/wp-content/uploads/2022/06/Cymraeg-Wales-My-Neuro-Survey-Report-June-2022-Welsh.pdf

[2] Hanner Gofalwyr di-dâl Cymru Nawr yn torri’n ôl ar hanfodion Yng Nghanol Argyfwng sy’n Dyfnhau (2025) Carers UK: https://www.carersuk.org/press-releases/half-of-wales-unpaid-carers-now-cutting-back-on-essentials-amid-deepening-crisis-hanner-gofalwyr-di-dal-cymru-nawr-yn-torri-n-ol-ar-hanfodion-yng-nghanol-argyfwng-sy-n-dyfnhau/.

Cysylltwch â ni ynghylch ein maniffesto etholiad Senedd Cymru 2026 drwy e-bostio:
publicaffairs@headway.org.uk

Os oes angen help neu gymorth arnoch, neu os oes gennych gwestiwn am anaf i'r ymennydd, cysylltwch â'n llinell gymorth am ddim, dan arweiniad nyrsys:

0808 800 2244
helpline@headway.org.uk

0115 924 0800 | enquiries@headway.org.uk

www.headway.org.uk

Prif swyddfa: Bradbury House, 190 Bagnall Road, Old Basford, Nottingham, NG6 8SF

Headway – the brain injury association is registered with the Charity Commission for England and Wales [Charity No. 1025852] and the Office of the Scottish Charity Regulator (Charity No. SC 039992].
Headway – the brain injury association is a company limited by guarantee registered in England [No. 2346893].